# Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth, 2013

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Gwilym O.Jones (Cyngor Sir Ynys Môn) (Cadeirydd)
Cynghorydd Caerwyn Roberts (Cyngor Gwynedd) (Is-Gadeirydd)

**Cyngor Gwynedd**

Cynghorwyr Annwen Hughes, Elin Walker Jones, Beth Lawton, Peter Read, Gareth Thomas, Eirwyn Williams.

**Cyngor Sir Ynys Môn**

Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes, Llinos Huws, R.Meirion Jones, R.Llewelyn Jones.

**WRTH LAW:** Ffion Edwards Ellis (Uwch Seicolegydd Addysgol)
Mrs Mair Read (Swyddog Addysg AAA Ynys Môn)
Mr Darren Jackson (Swyddog Addysg Cyngor Gwynedd)
Kathy Bell (Uwch Gyfrifydd Addysg Cyngor Gwynedd)
Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor)

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorydd Derlwyn Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Mr Rheinallt Thomas (Eglwysi Rhyddion), Mr Gareth Payne (Prif Seicolegydd Addysgol), Mr Dewi Jones (Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd), Dr Gwynne Jones (Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn)

---

**CYFLWYNIAD**

Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Cyd-Bwyllgor ac estynnodd groeso arbennig i Ffion Edwards Ellis, Uwch Seicolegydd Addysgol a Mr Darren Jackson, Swyddog Addysg o Gyngor Gwynedd. Cyfeiriodd y Cadeirydd at benodiad Mrs Delyth Molyneux, cyn swyddog o Gyngor Gwynedd yn Bennaeth Gwasanaeth Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn ac fe longyfarchodd hi ar ei phenodi i'r swydd.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION CYFARFOD 10 RHAGFYR, 2013**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr, 2013, ac fe'u cadarnhawyd fel rhai cywir.

**3 YR UNED DDARPARU AAA**

Cyflwynwyd adroddiad ar waith yr Uned Ddarparu Anghenion Addysgol Arbennig a materion perthynol yn ystod tymhorau'r Hydref, 2013 a Gwanwyn, 2014.

Adroddodd Mrs Mair Read, Swyddog Addysg AAA Cyngor Sir Ynys Môn ar y prif ystyriaethau yn codi o'r adroddiad fel a ganlyn –

- Mewn perthynas â gweinyddu prosesau asesu ac adolygu, bod y tîm gweinyddol bellach yn gweithredu i'w lawn gapasiti yn dilyn penodi dau gymhorthydd clerigol am gyfnod o flwyddyn hyd at ddiwedd Mawrth, 2015. Bu'n gyfnod heriol i'r gwasanaeth gweinyddol a gwerthfawrogir ymdrech y staff a gymrodd arnynt faich gwaith sylweddol yn ystod yr amser hwn.
- Cwblhawyd y cyfan o'r asesiadau statudol o fewn y terfynau amser lle na fu eithriadau.
- Llwyddwyd i brosesu nifer sylweddol o adolygiadau blynyddol yn amserol er mwyn gosod cyllidebau datganoledig i ysgolion.
- Bod datblygiadau rhanbarthol ynglyn ag unioni prosesau busnes yn ymwneud â'r gyfundrefn gofnodi Capita ONE yn parhau. Bydd mabwysiadu'r newidiadau arfaethedig yn golygu arbedion amser sylweddol i'r cymorthyddion clerigol.
- Cyflwynwyd model gwasanaeth gweinyddol newydd i'r Swyddogion Cleient gyda golwg ar gyfarch yr angen i ail-strwythuro'r sefydliad gweinyddol ar gyfer 2015/16 i adlewyrchu newidiadau i ofynion gweithredol yr Uned Ddarparu.Cymeradwywyd yr egwyddor ym mis Tachwedd.
- Mewn perthynas â'r Gwasanaeth Athrawon Arbenigol, hysbysebwyd am dair swydd sef – un llawn amser mewn iaith, cyfathrebu ac awtistiaeth lle gwelwyd y twf mwyaf mewn achosion ynghyd â dwy swydd 0.6 yr un ym maes golwg ac ym maes clyw. Yn hanesyddol, cafwyd anawsterau recriwtio athrawon arbenigol sydd hefyd yn rhugl yn y Gymraeg ac i oresgyn hyn buwyd yn cyflogi athrawon dan hyfforddiant ac yn trefnu iddynt fynychu cyrsiau tra mewn cyflogaeth.Penderfynwyd y tro hwn i hysbysebu am athrawon cymwys gyda chymal ategol y byddir yn ystyried ceisiadau gan athrawon profiadol sy'n awyddus i hyfforddi. Llwyddwyd i benodi'n fewnol i'r swydd llawn amser ym maes iaith a chyfathrebu ond nid i'r ddwy swydd rhan amser, ac felly aethpwyd ati i hysbysebu'n allanol am y swyddi hyn.
- Mewn perthynas â'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol parhawyd yn ystod y tymor i weithredu gyda nifer sylweddol yn llai o seicolegwyr o fewn y tîm yn sgîl absenoldebau oherwydd mamolaeth ac oherwydd ymadawiad dau seicolegydd rhan amser. Llwyddwyd i gynnig gwasanaeth i bob ysgol ond gyda llai o ymweliadau na'r arfer. Oherwydd hyn cyflogwyd tair seicolegwraig gynorthwyol i lenwi'r bwlch yn y gwasanaeth. Er nad oedd modd i un ohonynt ddechrau yn y gwaith tan y Nadolig maent wedi gwneud cyfraniad gyda nifer o dasgau ac wedi cyflwyno dau gwrs ar feysydd penodol.
- Cyfeiriodd yr Uwch Seicolgeydd Addysgol at yr atodiad i'r adroddiad ar waith yr Uned Ddarparu oedd yn amlinellu'r trefniadau arfaethedig ar gyfer y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol o fis Medi, 2014 ymlaen. Mae'r cynllun a gynigir wedi'i seilio ar gais i'r Cyd-Bwyllgor hyrwyddo hyfforddi seicolegwyr, ac yn benodol rhoi cefnogaeth i ddwy seicolegwraig gynorthwyol ddilyn cwrs hyfforddi proffesiynol a fyddai'n galluogi sicrhau gwasanaeth seicoleg addysgol priodol i ysgolion y ddwy sir i'r dyfodol. Dywedodd y Swyddog yn dilyn dwyn pwysau gan nifer o wasanaethau ac awdurdodau gan gynnwys y Cyd-Bwyllgor, ail agorwyd y cwrs hyfforddi proffesiynol ar gyfer seicolegwyr a gynhelir gan Brifysgol Caerdydd sy'n golygu bod modd i'r seicolegwyr cynorthwyol wneud cais i fynd ar y cwrs o fis Medi eleni ymlaen. Maent hefyd wedi gwneud cais i fynychu cyrsiau yn Lloegr ac ym Mhrifysgol Dundee yn yr Alban. Cynigir hysbysebu dwy swydd seicolegydd dan hyfforddiant i gychwyn ym mis Medi, 2014 wedi i'r tair swydd seicolegydd cynorthwyol ddod i ben. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn mynychu cwrs naill ai yng Nghaerdydd am dair blynedd neu yn yr Alban am ddwy flynedd gan weithio wedyn i'r Cyd-Bwyllgor ar delerau 0.8 llawn amser. Ceir yn yr atodiad fanylion am y costau byddai gofyn i'r Cyd-Bwyllgor eu talu am gynnal dau seicolegydd dan hyfforddiant p'run ai yng Nghaerdydd am dair blynedd neu yn yr Alban am ddwy flynedd neu un yng Nghaerdydd a'r llall yn yr Alban. Mae'r costau gan fwyaf yn llai na'r arian a fyddai fel arall wedi cael ei ddefnyddio i gyflogi 1.4 seicolegydd llawn a lle mae'r costau'n uwch, nid yw'r gwahaniaeth yn un sylweddol. Bydd cymal yn nghytundebau'r seicolegwyr hyfforddedig i'r perwyl y byddant yn ad-dalu'r arian pe na baent am ba bynnag reswm yn parhau i weithio i'r Cyd-Bwyllgor yn y dyfodol.
- Dygodd yr Uwch Seicolegydd Addysgol sylw at y ffaith bod y cynllun yn perthnasu i gynnal dwy seicolegwraig dan hyfforddiant yn unig a'u cyflogi wedyn fel seicolegwyr 0.8 llawn amser. Mae hyn oherwydd nad oes cyllid i gyflogi mwy na chyfanswm o 1.6 seicolegydd llawn amser. Ceir yn yr atodiad amlinelliad o'r llwybrau fyddai ar gael i'r drydedd seicolegwraig cynorthwyol gan gynnwys parhau yng nghyflogaeth y Cyd-Bwyllgor am flwyddyn arall fel seicolegwraig gynorthwyol a gwneud cais arall am gwrs hyfforddiant ym mhen blwyddyn. Dywedodd yr Uwch Seicolegydd Addysgol mai trwy fuddsoddiad yn y ffordd yr awgrymir y cryfheir y gwasanaeth i'r dyfodol.

Awgrymodd Swyddog Addysg AAA Cyngor Sir Ynys Môn ei fod yn gwestiwn i'r Cyd-Bwyllgor ei ystyried a yw am ddefnyddio arian o'i falanasau i barhau i gyflogi'r drydedd seicolegwraig fel seicolegwraig gynorthwyol ac iddi wneud cais arall am gwrs hyffordiant mewn blwyddyn.

Dywedodd Uwch Gyfrifydd Addysg Gwynedd y dymunai drafod y costau mewn mwy o fanylder gyda'r Swyddogion Cleient a'r Prif Seicolegydd Addygsol cyn i'r Cyd-Bwyllgor dderbyn y ffigyrau terfynol gan gymryd i ystyriaeth costau ategol cyflogaeth y seicolegwyr.
Yn y drafodaeth ddilynol ynghylch y wybodaeth a gyflwynwyd fe godwyd y materion canlynol:

- Cydnabuwyd cyfraniad y gweinyddwyr ar adeg anodd yn ystod cyfnod lle'r oedd y tîm yn gweithredu tan gapasiti a diolchwyd iddynt am ysgwyddo'r faich.
- Holwyd am ddatganoli cyllid i ysgolion, y trefniadau ar gyfer gwneud hynny a'r graddau yr oedd wedi digwydd yn y ddwy sir. Dywedodd Swyddog Addysg AAA Ynys Môn bod y ddwy sir yn edrych ar ddatganoli cyllid i ysgolion gogyfer darparu anghenion addysgol ychwanegol ond bod gofyn bod y gwaith o asesu lefel yr angen fod wedi'i gwblhau yn gyntaf. Ymwelwyd â phob ysgol gynradd ym Môn cyn y Nadolig ac ystyrir eu bod yn barod ac yn aeddfed i dderbyn y cyfrifoldeb. Byddant yn parhau i fod angen cefnogaeth a rhaid sicrhau bod y Cyd-Bwyllgor yn gryf ar gyfer hynny. Y disgwyliad yn genedlaethol yw y bydd canran uchel o'r gyllideb addysg yn cael ei datganoli i'r ysgolion. Eglurodd Uwch Gyfrifydd Addysg Cyngor Gwynedd bod yr Awdurdod yng Ngwynedd yn datganoli cyllid i 14 ysgol uwchradd ac 14 o'r ysgolion cynradd mwyaf. Cynhelir Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r gweddill.
- Croesawyd y cynllun hyfforddi seicolegwyr gan Aelodau'r Cyd-Bwyllgor fel cam rhagweithiol i ddiogelu a chryfhau'r gwasanaeth i'r dyfodol. Nodwyd yng ngoleuni'r buddsoddiad y byddir yn ei wneud ynddynt y byddid yn dymuno gweld grymuso'r cymal i ymrwymo'r seicolegwyr hyfforddedig i wasanaethu'r Cyd-Bwyllgor tu hwnt i'r ddwy flynedd yr awgrymir yn amodol ar reolau cyflogaeth. Nodwyd hefyd y byddai'n ymarferol ystyried dod â phwysau i geisio ehangu'r mynediad i'r cwrs hyfforddi proffesiynol ym Mhrifysgol Caerdydd i gynnwys nifer uwch o hyfforddeion er mwyn lleihau costau'r cwrs. Gofynnwyd am ragor o wybodaeth am y cwrs hyfforddi yng Nghaerdydd ac yn enwedig y trefniadau mynediad iddo.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn cydnabod y gwaith a wnaed gan wleidyddwyr ac eraill i sicrhau ail-gyfodi'r cwrs Hyfforddi Proffesiynol ym Mhrifysgol Caerdydd ac fe fynegodd werthfawrogiad am y gefnogaeth a gafwyd ar gyfer yr ymgyrch.

**Penderfynwyd bod y Cyd-Bwyllgor -**

- **Yn derbyn yr adroddiad ar waith yr Uned Ddarparu ac yn nodi ei gynnwys.**
- **Yn cefnogi hysbysebu dwy swydd seicolegydd tan hyfforddiant i gychwyn ym mis Medi, 2014 wedi i'r tair swydd seicolegydd cynorthwyol ddod i ben.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI:**

- **Uwch Gyfrifydd Addysg i drafod costau'r cynllun hyfforddi seicolegwyr ymhellach gyda'r Swyddogion Cleient a'r Prif Seicolegydd Addysgol a chyflwyno'r ffigurau terfynol i'r Cyd-Bwyllgor.**
- **Prif Seicolegydd Addysgol i ddarparu gwybodaeth am y cwrs hyfforddi proffesiynol ym Mhrifysgol Caerdydd.**

## 4 MATERION CYLLIDOL - CYLLIDEB 2014/15

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Gwasanaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn ymgorffori cyllideb y Cyd-Bwyllgor am 2014/15.

Adroddodd Uwch Gyfrifydd Addysg Cyngor Gwynedd bod y gyllideb yn ymgorffori cost cytundebau cyflog, incrementau cyflogau, addasiad yswiriant gwladol a chwyddiant am 2014/15, sef cynnydd o 0.99% i gyfraniadau cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn. Cyllidir cost net y gyllideb o £1.2m trwy gyfraniad o 61.37% gan Gyngor Gwynedd, sef £738,150 a chyfraniad o 38.63% gan Gyngor Sir Ynys Môn, sef £464,637. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor yn wynebu toriad cyllidol yn 2014/15.

Dywedodd Swyddog Addysg AAA Cyngor Sir Ynys Môn bod y posibilrwydd o ofyn i'r Cyd-Bwyllgor weithredu toriad gwerth 5% ar gyfer 2014/15 a 2015/16 wedi cael ei ystyried wrth drafod y cynlluniau cyllidebol.

Dywedodd yr Uwch Gyfrifydd Addysg tra byddai modd cynnal y fath doriad yn y tymor byr trwy ddefnydd o'r balansau, mae lleihad o 5% gyfwerth â £60,000 sef swydd seicolegydd addysgol a byddai gweithredu toriad pellach o 5% yn gyfystyr â swydd seicolegydd arall. Gan fod crynswth gwariant y Cyd-Bwyllgor ar gyflogau staff y sefydliad staffio sydd yn gorfod dwyn baich unrhyw doriadau. Ychwanegodd Swyddog Addysg AAA Ynys Môn byddai gofyn ystyried proses o ail-strwythuro i alluogi ymdopi gyda cwtogiad cyllidol ar y gyfryw raddfa. At hynny, rhaid ymgorffori unrhyw doriadau o fewn y newidiadau sy'n digwydd yn rhanbarthol ar draws Gogledd Cymru.

Bu i Aelodau'r Cyd-Bwyllgor bwysleisio'r pwyntiau canlynol –

- Bod angen ymagweddu'n wahanol i'r broses o lunio cyllidebau ac edrych tu hwnt i doriadau tameidiog ar draws gwasanaethau, ac yn hytrach ystyried yr effaith ar wasanaethau unigol o'u torri a phwyso a mesur y risgiau ynghlwm.
- Os defnyddir y balansau i gynnal gwasanaethau'r Cyd-Bwyllgor am ddwy flynedd mae'n rhaid cynnal dadansoddiad o effaith ymarferol y toriadau ar y defnyddwyr h.y. sut fyddai colli swydd seicolegydd yn taro plant ag anghenion addysgol ychwanegol y maent angen y gwasanaeth.

**Penderfynwyd mabwysiadu'r gyllideb am 2014/15 fel y'i cyflwynwyd.**

## 5 CYFARFODYDD 2014/15

Nodwyd byddai cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor am 2014/15 yn cael eu cynnal ar y dyddiadau canlynol :

Dydd Gwener, 4ydd Orffennaf, 2014 am 10:30 y bore
Dydd Gwener, 19 Medi, 2014 am 2 o'r gloch y prynhawn
Dydd gwenr, 21 Tachwedd, 2014 am 10 :30 y bore
Dydd Gwener 13, Mawrth, 2015 am 10:30 y bore.

**Cynghorydd G.O.Jones**
**Cadeirydd**